

# Yr Ymofynnydd

Rhifyn Gaeaf 2013

£2.00



## Alwyn a'i ffrind a noson fawr Yr Ymofynnydd

Y tu mewn:  
Undodwr a newidiodd y byd  
Hoff garol y Nadolig



# Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

## Y We a'r byd go iawn

### Yr Undodiaid yn yr Eisteddfod

Eleni eto, roedd presenoldeb yr Undodiaid i weld ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol. Bu cryn ddiddordeb yn y ddelwedd gyfoes a blaengar a ddangoswyd wrth i Carwyn Tywyn gadeiro trafodaeth ar ‘Y We: Dyfodol Ffydd Cymru?’ ym Mhabell y Cymdeithasau.

Roedd panel o siaradwyr wedi dod at ei gilydd o bob man, yn ddaeryddol ac yn ddiwinyddol, i drafod a chynnig syniadau ar le a defnydd y We ym mywyd crefyddol Cymru.

Cafwyd cwmni John Gwilym Jones o Cristnogaeth21, Cathrin Daniel o Gymorth Cristnogol, Rhys Llwyd o Undeb y Bedyddwyr, Arfon Jones o Beibl.net, y trydarwyr Sian Howys a Mabon ap Gwynfor ynghyd â Wyn Thomas i'n cynrychioli ni.

Trafodwyd pob math o syniadau ac agweddau o'r we fyd eang, o e-bostio llythyron capeli i bethau hollol newydd fel gweddarlledu gwasanaethau. Bu cryn drafod - ac anghytuno hefyd - ynglŷn â'r syniad o unigolion yn siarad ar ran capeli neu enwadau, o ystyried bod cyfryngau fel Facebook a Twitter nawr yn golygu bod miloedd o bobl yn gallu darllen yr hyn a ddywedwn o fewn ychydig eiliadau.

Mewn trafodaeth a oedd yn wirioneddol ecwmenaidd, fe rannom bob math o brofiadau yn ymwneud â'n defnydd ni o'r We ac, yn y diwedd, cytunwyd gan bawb fod y We, o'i defnyddio i hyrwyddo ein daliadau, yn offeryn pwerus iawn ond na all dim byd gymryd lle pobl yn cwrdd â'i gilydd yn y byd go iawn.



## Cofio'r cawr lliwgar

Un o'r digwyddiadau cofiadwy i nodi 200 mlwyddiant dileu Deddf y Drindod oedd darlith gan yr Athro Geraint Jenkins, Blaenplwyf, am Iolo Morganwg, yr Undodwr.

Dyma rai pigion o'r pwyntiau difyr a dadlennol oedd ganddo wrth drafod y gŵr yr oedd ef yn ei alw'n "gymeriad mwyaf diddorol a lliwgar yn ein hanes ni fel Cymry".

- Ef oedd "dyn mwyaf gwybodus a darllengar ei ddydd". Roedd wedi ffugio cerddi yn enw Dafydd ap Gwilym ac roedd rhai'n meddwl bod y rheiny'n well na'r gwreiddiol.
- Roedd ganddo ddau reswm mawr tros hoffi'r Smotyn Du – ei gyfeillgarwch gyda Tomos Glyn Cothi a Dafydd Dafis, Castellhywel ("sumo wrestler o Gardi") a'i awydd i gadw'r ardal rhag y Trindodwyr (y Methodistiaid oedd "the greatest pests in Christendom").
- Roedd Iolo a Tomos yn arfer canu caneuon y Chwyldro Ffrengig gan gynnwys canu "Duw gadwo Thomas Payne" (awdur The Rights of Man) yn hytrach na "God Save the King".
- Roedd wedi sgrifennu mwy na 3,000 o emynau – tair gwaith mwy na Williams Pantycelyn. Mae'r rheiny'n emynau cymdeithasol sy'n pwysleisio gwerthoedd y byd hwn. Yn anffodus, dim ond 23 o'r rheiny sydd yn y 'Perlau' newydd o gymharu â 137 yn y fersiwn cynt.
- Roedd wedi sefydlu'r Orsedd er mwyn hyrwyddo syniadau radicalaidd ymhlith pobl Cymru – cyfiawnder, heddwch a goddefgarwch.



# Caws a gwin a lot o arian — diolch!

Llwyddodd y noson ‘Caws a Gwin a Bach o Feddwl’ i godi mwy na £1,000 at goffrau’r Ymofynnydd.

Roedd yna drafodaeth fywiog rhwng y panelwyr yng Ngwesty’r Grannell, Llanwnnen – Mererid Hopwood, Dafydd Iwan a’r Parch Eric Jones – wrth iddyn nhw fynd i’r afael â rhai o bynciau mawr y dydd a chred ... ac ambell un ysgafnach.

Roedd nifer o gwmnïau lleol a chenedlaethol wedi cyfrannu caws a Gwasg Gomer, argraffwyr Yr Ymofynnydd wedi noddi’r gwin a’r digwyddiad.

Yn ogystal â phris y tocynnau, fe llwyddodd y Raffl i godi £555 a chafodd y Parch Wyn Thomas

hwyl fawr ar werthu peth o’r caws oedd ar ôl. Cafodd prif wobwr y raffl ei dychwelyd hefyd a chafwyd rhoddion i roi cyfanswm o £1035.

Dyma’r cawsiau – Broksburg glas, Brie Cenarth, Calon Wen, sawl math o gaws Dragon, Gorwydd, Pont Gâr, Llangloffan, Llandyrnog ac Old Shire.

Diolch i’r cwmnïau i gyd, i Wasg Gomer, y panelwyr, i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd ac i Sue a Siriol yn Y Grannell am eu cymorth parod.

Rhoddydwyd rhodd fechan i’r panelwyr i gofio am y noson ac i ddiolch iddyn nhw am roi eu gwasanaeth am ddim.



*Uwchben — y tri phanelwr yn feddylgar; ar y dde Wyn yr Ocsiwniar; y dyrfa dda a ddaeth i Westy’r Grannell ac, ar y chwith, y caws, y craceri a’r grawnwin.*



# Ffarwel a diolch

Ym mis Medi, fe symudodd Carwyn Tywyn, Ysgrifennydd y Gyfadran, i swydd newydd. Dyma'i neges ffarwel ...



Gwaetha'r modd, daeth yr amser i ysgrifennu fy nghyfraniad olaf i *Yr Ymofynnydd* o gadair Ysgrifennydd y Gyfadran.

Erbyn i'r erthygl hon gael ei chyhoeddi, byddaf wedi dechrau ar swydd newydd yn Swyddog Datblygu Arbenigol dros Gymru, i elusen Home-Start, sy'n cynorthwyo teuluoedd ifanc mewn sefyllfaoedd bregus ar draws gwledydd Prydain. Rwy'n edrych ymlaen at fy nyletswyddau newydd yn fawr iawn.

Ar ôl cael fy mhenodi i'r swydd, ces wybod bod dau Undodwr amlwg, sef Elaine Davies a'r Parch. Cen Llwyd, hefyd wedi ymwneud ag elusen Home-Start yn ardal Ceredigion ers blynyddoedd lawer.

Serch hynny, nid wy'n gadael swydd yr Ysgrifennydd yn ysgafn. Mae peth tristwch wrth fynd o swydd sydd wedi cynnig cyfleoedd niferus i arwain yr Undodiaid ar lwyfan Cymru.

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddiweddar yn Ninbych, awgrymodd un gweinidog Cristnogol wrthyf bod yr Undodiaid bellach yn cael eu hystyried yn rhan o "brif ffrwd" crefydd yng Nghymru, a bod hynny'n ganlyniad i'n hymdrechion fel Cyfadran dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Os yw'r canfyddiad yn gywir, rwy'n falch iawn o fod wedi bod yn rhan o'r newid.

Gwn y bydd rhai'n holi pam fy mod yn gadael ar ôl prin ddwy flynedd a hanner ac mae'n gwestiwn digon teg. Yn fy nhyb i, roeddwn wedi cyrraedd diwedd cyfnod o ran yr hyn y gallwn ei gyflawni i gryfhau cynulleidfaoedd unigol.

Yng Ngheredigion, cafwyd cyfres adeiladol o weithdai hwyrol i drafod cyfansoddiad ac arweinyddiaeth. Synhwyrtais bod y broses wedi dod i ryw fath o ddiweddglo naturiol. Gobeithio y bydd y grŵp trafod newydd yn dal ati i holi sut mae cryfhau'r ffydd Undodaidd at y dyfodol.

Bûm hefyd yn cynnal trafodaethau gyda chynulleidfaoedd unigol, megis yn Y Wig (Bro

Morgannwg); Nottais (ger Porthcawl); Abertawe; Capel Graig (Cwm Tawe); Brondeifi a Bangor. Ym mhob un o'r achosion hynny, roedd yn ymddangos i mi bod terfyn yn dod i'r hyn y gallwn ei gynnig o'm safle fel Ysgrifennydd, ac mai mater i'r cynulleidfaoedd unigol oedd penderfynu ar y gwahanol ddewisiadau ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol y llynedd, ganwyd fy ail blentyn, Gwyn. Ers hynny, daeth y cyfarfodydd a gwasanaethau rheolaidd ar benwythnosau rhywfaint yn anoddach i ni fel teulu. Wrth gwrs, mae hyn yn broblem i unrhyw riant sydd yn swyddog neu'n weinidog mewn enwad crefyddol. O bwysu a mesur hyn oll, pan ddaeth y cynnig swydd oddi wrth Home-Start, roeddwn yn barod i symud ymlaen at gyfeiriad newydd.

Wrth ymadael, carwn ddiolch yn fawr i'r rhai o blith Undodiaid Y Smotyn Du a fu'n cydweithio gyda fi dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth reswm,

rwyf wedi cydweithio agosaf gyda Megan Jones, Elaine Davies, a'r Parchedigion Cen Llwyd a Wyn Thomas. Rwy'n ddyledus iddynt am eu cymorth parod a'u cyngor doeth.

Carwn ddiolch hefyd i'r ffyddloniaid a fynychodd y gyfres o weithdai hwyrol.

Rwy'n gobeithio'n fawr eu

bod yn fodd i gynorthwyo'r capeli wrth symud ymlaen.

Wrth fy nyletswyddau, fe fwynheais groeso twymgalon (a digonedd o de a chacennau!) mewn sawl festri ac aelwyd ar draws Y Smotyn Du. Ni fyddaf yn anghofio eich croeso a'ch lletygarwch.

Rwy'n gobeithio y bydd modd i ni gadw cysylltiad. Carwn bwysleisio y byddwn i'n falch iawn i ddychwelyd i'r Smotyn Du i gymryd rhan mewn unrhyw fath o gwrdd trafod, neu lenwi bwloch trwy ganu'r delyn mewn noson gymdeithasol. Bydden i wrth fy modd yn dod yn ôl atoch.

*Gyda diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cefnogaeth.*

Awgrymodd un gweinidog  
Cristnogol bod yr  
Undodiaid bellach yn rhan  
o "brif ffrwd" crefydd yng  
Nghymru ...

# Holi hwn a hon ...

**Enw:** Tania Rees

**Oed:** 27

**Gyrfa:** Athrawes yn Ysgol Gyfun Penglais, Aberystwyth.

**Aelod o Gapel:** Capel y Fadfa.

**Rwy'n athrawes yn yr Ysgol Sul ac yn Drysorydd Urdd y Benywod Ceredigion ers rhyw dair blynedd.**



**Pam dod yn aelod o'r Undodiaid?** Rwy'n lwcus iawn o fod wedi cael rhyddid barn gan fy rheulu. Penderfynais ddod yn Undodwraig selog yn dilyn sgysiau hirfaith gyda phobl megis y diweddar Ddr Elwyn Davies (dechreuais fy siwrnai at yr Undodiaid yn ifanc iawn!) Anghofiaf i fyth holi cwestiynau dwfn fel 'pwy yw Duw?' a 'pham mynd i'r capel?' a chael atebion call, amyneddgar ac addysgiadol a roddodd y cyfle i mi benderfynu drosod fy hun, heb ofni cael fy meirniadu.

**Beth wyt ti'n meddwl sy'n gwneud Undodwr da?** Mae Undodwr yn berson sy'n trin pobl eraill fel y dymuna gael ei drin ei hun ac mae'n gwneud cymaint ag y gall i helpu'r capel a'i aelodau. Teimlaf nad yw credo'r unigolyn yn benodol o unrhyw fusnes i mi, dyna holl bwrrpas bod yn Undodwr – rhyddid barn a chred.

**Disgrifia'r Undodwyr mewn 3 gair:** Penderfynol, amyneddgar a ffyddlon. Penderfynol oherwydd y daith i gyfreithloni ein sefyllfa 200 mlynedd yn ôl. Amyneddgar - rwyf wedi colli cyfrif sawl gwaith rwyf wedi gorfod cyfiawnhau fy nghredoau i bobl y tu allan i Undodiaeth. Ffyddlon—unwaith y bydd person yn ymaelodi, nid oes llawer yn ein gadael.

**Beth wyt ti'n mwynhau yn dy amser sbar?** Rwy'n mwynhau rhedeg yn fawr – mae'n gyfle i feddwl ac ymlacio heb ddim i dynnu fy sylw!

**Ble wyt ti'n fwyaf hapus?** Wel, yn rhedeg oherwydd y llonyddwch, ond hefyd yn ymlacio o flaen y tân (oherwydd nad yw'n digwydd yn aml!)

**Beth yw'r atgof/digwyddiad gorau sydd gennyt yn ymwneud â'r enwad?** Y cyntaf yw'r holl berlau y dysgais gan fy athrawes Ysgol Sul, Llinos Dafis (anghofiaf i fyth y bregeth am sut i ddweud 'diolch' go iawn yn hytrach na 'jolch'! Os nad yw e werth dweud y gair yn gywir, peidiwch â'i ddweud o gwbl oedd y wers!) Yr ail yw sefydlu fy nghefnder yn weinidog ar ein chwe chapel. Rwy'n falch iawn o gael yr anrhydedd o'i weld yn dilyn ôl traed dylanwad mawr arnaf, Dr Elwyn Davies.

**Beth wyt ti'n meddwl yw rôl ieuencid o fewn yr enwad?** Mae hwn yn gwestiwn anodd oherwydd mae'r ieuencid i gyd yn chwarae rolau gwahanol. Ein cyfrifoldeb ni fel ieuencid yr enwad yn gyffredinol yw sicrhau dyfodol i'n credoau a'n harferion. Mae hefyd yn gyfrifoldeb arnom i barchu'n gilydd a'r hyn rydym yn ei gyfrannu er mwyn sicrhau mwy o gyfraniad gan bawb.

**Beth faset ti'n hoffi gweld yr enwad yn ei wneud i bobl ifanc?** Caniatau i ni ddysgu a datblygu i fod yn oedolion â gwerthoedd uchel ar hyd ein hoes, trwy gynnig cyfleoedd i fod yn rhan o gapeli, Ysgolion Sul ac Urdd y Benywod. Hoffwn weld rhywbeth ar gyfer yr oed rhwng Ysgol Sul a dod yn aelod—cyfnod pan ydym yn colli nifer.

Llwyddodd y Sioe Gerdd, a gynhaliwyd pan oeddwn i'r oed hwnnw (sawl blwyddyn yn ôl erbyn hyn), i bonito'r bwllch ond byddai'n braf gallu cael criw at ei gilydd i drefnu rhywbeth tebyg, yn hytrach nag un druan yn cymryd y cyfrifoldeb i gyd – diolch Mattie!

Colofn Dylan Iorwerth

## Y cofio i orffen rhyfel

Y flwyddyn nesa', fydd dim modd osgoi dau ganmlwyddiant – geni'r bard Dylan Thomas a dechrau y Rhyfel Byd Cyntaf.

O gofio bod Dylan Marlais Thomas yn nai i Gwilym Marles, gweinidog Llwyd adeg y troad allan, efallai y dylen ni feddwl am wneud rhywbeth i nodi'r cysylltiad hwnnw ... ond beth ddylen ni ei wneud i gofio am y canmlwyddiant arall?

Mae seremonïau i gofio rhyfeloedd yn dueddol o droi'n ymorchestu mewn rhyfel hefyd. Mae yna fartsio a saliwio a gwisgo medalau a gwleidyddion yn defnyddio'r cyfan at eu dibenion eu hunain.

Petai'n bosib gofyn i'r dynion ifanc a fu farw yn ffosydd Ffrainc sut fath o seremoni y bydden nhw am eu gweld, mi fyddai'r ateb yn ddi-ddorol iawn.

Mae'n bosib y bydden nhw wedi cytuno â Harry Patch, yr ola' un o'r Tommys i farw, ac yntau'n 111 oed yn 2009: "Dyw rhyfel ddim werth un bywyd."

Dyna'r teimlad sydd yn un o'r caneuon rhyfel gorau erioed hefyd ... The band played Waltzing Matilda ... am y milwyr o Awstralia a gafodd eu lladd yn Gallipoli.

Mae gen i gof clir o'r tro cynta' y clywais i honno ... mewn math o far yn Strasbourg yn hwyr y nos yng nghanol yr 1980au. Un o aelodau senedd Ewrop oedd yn ei chanu hi wrth y bwrdd yn fannu, a hynny mewn llais tenor swynol.

Roedd y gân gan awdur o'r enw Eric Bogle yn fwy dirdynnol fyth o sylweddoli pwy oedd hwnnw, John Hume, aelod Derry yng Ngogledd Iwerddon ac un o enillwyr Gwobr Heddwch Nobel am ei ymdrechion yno.

Mae'n disgrifio disgrifio'r hen ddynion yn gorymdeithio i gofio a'r bobol ifanc yn gofyn pam eu bod nhw'n martsio ... ac yntau'n gofyn yr un cwestiwn yn union iddo'i hun.

Mae gan R. Williams Parry englyn enwog ar gofeb ryfel yn ei hen ardal ym Mhenygroes—yn sôn am am "y rhwyg o golli'r hogiau" – yr un rhwyg a deimlodd pob un o gymunedau'r Smotyn Du a phob ardal arall yng Nghymru.

Y flwyddyn nesa', fe fydd y Crynwyr yn ceisio cofio'r Rhyfel Mawr yn yr ysbryd hwnnw, trwy gymryd y cyfle i atgoffa pawb pa mor ddinistriol ydi rhyfel ac am y bobol a wrthododd ymladd ac sy'n dal i wrthod lladd.

Roedd llawer o'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cymtaf yn rhyfeddol o ddewr ond, er parch atyn nhw mi ddylen ninnau helpu i ledw neges heddwch. Mae'n gyfle i'r Undodiaid ymuno efo'r Crynwyr i ddangos bod ffordd arall yn bosib.

Tad y  
We –  
un  
ohonon  
ni!  
Undodwr  
sy'n gyfrifol  
am newid  
ein bywydau  
ni i gyd

Y flwyddyn nesa', fe fydd un o ddarganfyddiadau mwya'r byd yn 25 oed. Ac Undodwr oedd yn gyfrifol amdano.

Dyw hi ddim yn ormod dweud bod y darganfyddiad wedi newid bywydau pob un ohonon ni – er nad yw pawb ohonon ni yn defnyddio'r darganfyddiad.

Peth arall diddorol amdano yw na allwch chi ei weld. Dyw e ddim yn bod yn unman chwaith. Ychydig yn debyg i'r syniad o dduw?

Tim Berners-Lee yw enw'r Undodwr a'r We Fyd-eang – y World Wide Web – oedd ei ddarganfyddiad. Pe bai'r We yn diflannu heddiw, fe fyddai rhan helaeth o'r byd yn dod i stop.

Mae yna ochr arall ryfeddol i'r darganfyddiad yma. Yn wahanol i lawer o ddyfeiswyr, wnaeth Tim Berners-Lee ddim hawlio'r elw am ei ddyfais. Mae wedi cael ei rhannu'n rhad ac am ddim gyda phawb.

Mae hynny, yn ôl Tim Berners-Lee, yn rhan o ffordd y We o feddwl ond mae hefyd yn dadlau fod agweddau hael o'r fath yn rhan o ffordd yr Undodiaid o feddwl hefyd.

Mae wedi sgrifennu erthygl yn cymharu'r syniadau y tu cefn i'r We gydag Undodiaeth – dyw e ddim yn dweud fod peiriannau'n debyg i bobol, ond mae'n gweld ambell i beth tebyg.

Wrth weithio ar gynllun mawr gwyddonol CERN yn y Swistir y cafodd Tim Berners-Lee y syniad o gael ffordd gwbl rydd ac agored o gysylltu

cyfrifiaduron er mwyn rhannu syniadau.

Roedd eisoes wedi datblygu ffordd o wneud hynny rhwng gwyddonwyr CERN ond yn awr roedd am ei ledu i bawb yn y byd. Ac fe ddisgrifiodd y syniad mewn neges yn 1989.

Iddo ef, yr holl nod oedd dod o hyd i reolau a fyddai'n caniatáu i gyfrifiaduron weithio mewn harmoni gyda'i gilydd.

A dyna yw nod ysbrydol a chymdeithasol yr Undodiaid hefyd, meddai – dod o hyd i reolau sy'n caniatáu i bobl weithio gyda'i gilydd mewn harmoni.

Goddefgarwch yw un o'r geiriau mawr eraill sydd ganddo. Er fod gan hwnnw ystyr gwahanol yn y byd cyfrifiadurol, mae tad y We yn

ymhyfrydu yng ngoddefgarwch yr Undodiaid, yn dweud mai'r unig beth na allwn ei oddef yw anoddefgarwch ei hun.

Mae yna debygrwydd llawer closiach rhwng swyddogaeth y We ac Undodiaeth, yn ôl Tim Berners-Lee, gyda'r ddau yn lleoedd i feddwl ac i chwilio am y gwirionedd, heb fynnu mai dim ond un ateb sydd.

Nid neb mewn awdurdod a roddodd orchymyn i bobl ddefnyddio'r We, ond miloedd o bobl yn gweld ei werth ... rhan o gred Undodiaid yw y bydd pawb yn well eu byd yn y pen draw os bydd pawb yn chwarae rhan fach.

Mae Undodiaeth yn llawn gobaith, meddai wedyn, ac mae'r We yn enghraifft o freuddwyd yn



*Y cyfrifiadur hanesyddol—gyda nodyn yn dweud wrth bobl am beidio â'i ddiffodd.*  
(Llun: Coolcaesar CCA 3.0)

## Stori Tim Berners-Lee

- Ei eni yn Llundain yn 1955 a chael gradd Ffiseg o Rydychen.
- 1980 – dyfeisio ffordd i wyddonwyr rannu gwybodaeth ar gyfrifiaduron.
- 1989 – disgrifio'i syniad o We Fyd-Eang – y World Wide Web.
- Ymuno â'r Undodiaid ar ôl symud i Boston, yr Unol Daleithiau.
- 2013 – ymgyrchu'n erbyn y ffordd y mae llywodraethau'n ysbïo ar ddefnydd o'r We.

## Geiriau Tad y We am Undodiaeth

“Mae gwerth ac urddas sylfaenol pob bod dynol yn athroniaeth ganolog ac mae gyda nhw barch iach at bobl sydd â chredoau gwahanol.”

“Maen nhw'n ymladd hiliaeth a diffyg cydraddoldeb. Maen nhw'n becco o ddiffri pan fydd pobl yn cael eu lladd a'u poenydio am nad ydyn nhw'n credu yn yr Un Gwir Dduw neu'r Un Gwir Unrhywbeth. Mae Undodiaid yn credu mewn cariad.”

“Mae'r chwilio am wirionedd wastad yn mynd law yn llaw gydag amheuaeth o unrhyw un sy'n hawlio eu bod nhw wedi ei ffeindio.”

“Mae Undodiaeth yn llawn gobaith.”



Llun Sefydliad John a James Knight CCA2.0)

# Newyddion y capeli

## Aberdâr

### Gwasanaeth Diolchgarwch


Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn Highland Place gyda Kath Forder o Kidderminster yn arwain y gwasanaeth. Cafwyd cwmni nifer o Gaerdydd a Chefncoed yn y gwasanaeth.

### Bore coffi

Codwyd £250 mewn bore coffi yn nhŷ Anne ac Eric Jones a'i rannu rhwng yr NSPCC ac ysgol i blant yn yr Affrig.

### Agor yr Hen Dŷ Cwrdd

Daeth nifer o bobl ynghyd i'r Hen Dŷ Cwrdd yn Nhrecynon pan oedd yr adeilad ar agor ym mis Medi a chyfle i weld gwelliannau i'r to a'r nenfwd.



*Yr Hen Dŷ Cwrdd*

Siaradodd Leslie Davies a'r Parch Eric Jones.

### Darlith y Siartwyr

Daeth nifer i Ddarlith Flynyddol Highland Place pan fu Huw Williams o Ddowlais yn sôn am Fudiad y Siartwyr.

### Priodas

Yn ystod yr haf priodwyd Sarah a Jason ac hefyd Hannah a Jonathan. Dymunwn yn dda iddynt yn eu bywyd priodasol.

### Cymorth i'r byddar

Gosodwyd system newydd ar gyfer y byddar yn y capel ym mis Awst ar gost o £3,500 ac, ar hyn o bryd, mae ffenestr newydd yn cael ei gosod ym mhen blaen y capel.

### Noddi addysg

Mae'r gynulleidfa wedi casglu dros £5,000 bellach i hyrwyddo addysg mewn rhan bellennig o'r Affrig gan ddanfôn symiau yn fisol er mwyn sicrhau fod yr ysgol leol yn dal ar agor.

**COFIWCH!**

**Dyddiad derbyn  
newyddion ar gyfer  
rhifyn nesaf:**

**Gwener, 14 Mawrth  
2014.**

**Cofiwch dynnu  
lluniau o  
ddigwyddiadau ac  
anfon gwybodaeth am  
rai sydd i ddod.**



## Alltyblaca

### Cwrdd Diolchgarwch

Nos Sul 6 Hydref, cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y capel. Daeth cynulleidfa dda ynghyd a chroesawyd pawb i'r oedfa gan y gweinidog Cen Llwyd. Y pregethwr gwadd eleni oedd y Parch J Eric Jones o Aberdâr. Cafwyd ganddo eiriau pwrpasol ac ystyriol wrth iddo gymharu gweithio a gofalu am ardd i'r modd y medrwn ni, fynychwyr oedfaon ac aelodau capeli, edrych ar ôl ein gilydd. Gwyneth Davies, Llanybydder, oedd yn cyfeilio ar yr agor.

# Brondeifi

## Cydymdeimlo

Trist iawn yw cofnodi colli cyfeillion ffyddlon i gapel Brondeifi, sef Mrs Ann Lewis, Bronwydd, Heol y Bont, a gollodd frwydr greulon ar 24 Awst. Bu Ann a'i phriod Gwynfor yn gefnogol iawn i weithgareddau'r capel ac yn enwedig eu meibion, Dylan a Dafydd, a fu'n aelodau ffyddlon iawn o Ysgol Sul Brondeifi yn ystod y saithdegau a'r wythdegau.

Siom hefyd oedd clywed am farwolaeth tad Gareth a Tanya Morgans, sef Wyn Morgans, Glwydwern gynt, priod Gwyneth a thad-cu annwyl i'w wyrion a'i wyresau.

Ar 2 Medi daeth newyddion trist arall - fod David Meirion Davies, mab Danny (Painter) a Mrs Davies, gynt o Derlwyn, Drovers Road, wedi marw. Claddwyd ef gan y Parch Goronwy Evans ym mynwent Brondeifi gyda'i deulu ar y 12fed. Soniodd Mr Evans amdano fel person lliwgar a diddorol gyda diddordeb arbennig mewn chwaraeon ac yn gricedwr o fri.

Yn ddiweddarach yn y mis, claddwyd llwch George Peet, sef priod y diweddar Janet a brawd yng nghyfraith Elmina Farrell a mab yng nghyfraith y diweddar Capten a Mrs Jones, Minyrafon. Roedd Janet ac Elmina yn gyfnitherod cyntaf i'r diweddar Nansi Martin.

Cydymdeimlodd y Parch Goronwy Evans yn ddiffuant iawn â'r teuluoedd i gyd wrth fwrdd y Cymun ddydd Sul olaf mis Medi.

## Gwasanaeth cydenwadol

Am y tro cyntaf ers rhyw ddeugain mlynedd, ymunodd aelodau Brondeifi mewn gwasanaeth cydenwadol â chapel



**Diolch wedi Rali — fe ddaeth Cymdeithas y Ddedwyrain i Brondeifi ar eu rali flynyddol ym mis Gorffennaf, gan ymuno mewn gwasanaeth yno/ Roedden nhw'n ddiolchgar iawn am y croeso.**

(Llun: Keith Lewis-Jones)

Siloh a Soar ar 6 Hydref. Cafodd ein Gweinidog wahoddiad i gynnal gwasanaeth yn Soar ac yn sgil hynny estynnwyd y gwahoddiad i'r aelodau a phrofodd hyn yn gryn lwyddiant.

## Gwasanaeth Diolchgarwch

Ar y 13 Hydref daeth tyrfa dda ynghyd i'n gwasanaeth Diolchgarwch i wrando ar y Bonwr Gwyn Elfyn yn ein hannerch. Cafwyd gwasanaeth hyfryd iawn yn ei gwmni a chyflwynodd ei neges amserol yn ddiidwyll iawn.

Y Sul canlynol, tro disgyblion yr Ysgol Sul oedd cynnal eu gwasanaeth Diolchgarwch. Yn addas iawn 'Diolch' oedd eu thema ac roedd y plant wrth eu bodd yn cyflwyno'u neges mewn gwahanol ddulliau. Cymerwyd rhan gan Elin, Elen, Hanna, Martha, Ffion, Sara, Lili, Sion, Llyr, Rhys, Ifan, Gwion, Griffudd, Marged, Deina a Megan.

Cafwyd hefyd ddatganiad swynol o 'Pererin Wyf' gan griw o wragedd ifanc, sef Meinir

Jones, Ann Davies, Heini Thomas, Meleri Jones, Nelian Jones a Sarah Evans gyda Meinir Evans yn cyfeilio.

I ychwanegu at y gwasanaeth hyfryd daeth pob un â'i hoff flodyn i'r oedfa gan ddewis blodyn gwahanol i fynd adref gyda hwy. Cafwyd anerchiad addas i'r plant gan y Gweinidog a ddiolchodd i'r plant am eu gwaith graenus ac i Heini a phawb fu wrthi'n eu hyfforddi.

## Gwasanaeth Radio

Fore Sul, 10 Tachwedd, pleser yn wir fu clywed llais ein Gweinidog yn cynnal Oedfa'r Bore ar BBC Radio Cymru. Llongyferchir ef yn fawr am wasanaeth clodwiw ar y thema 'Breuddwyd' ac am y dewis addas o emynau a oedd wedi eu gwau mor drawiadol o amgylch yr anerchiad.

## Gwasanaethau eraill

Dros y cyfnod ers mis Medi rydym wedi cael y cyfle i

groesawu'r Parch Wyn Thomas a'r Bonwr Ioan Wyn Evans i gynnal gwasanaethau a braf bob amser yw cael eu cwmni.

Hefyd cafwyd gwasanaeth aelodau, gyda Mr Arthur Roderick yn cyflwyno anerchiad diddorol i'n hatgoffa am hanes trychinebus Dafydd Jones a'i deulu o Ffynnon Llywelyn, Rhydowen, gan ddyfynnu'n helaeth o lyfr gwerthfawr y diweddar Mrs Nansi Martin am Gwilym Marles.

Bu Urdd y Benywod hefyd yn cynnal gwasanaeth ar 25 Tachwedd gyda nifer o'r aelodau'n cymryd rhan drwy weddi, darlenniadau a chyhoeddi emynau. Traddodwyd yr anerchiad gan Gwenda Davies a oedd wedi ei seilio ar blasdai'r fro, a hynny o ganlyniad iddi fod yn un o'r cast ychwanegol yng nghyfres 'Y Plas' yn Llanerchaeron ar S4C yn ddiweddar. Creodd hyn ddiddordeb ynddi i ymchwlio ymhellach i hanesion plasdai

eraill y fro, a ffrwyth yr ymchwil yma oedd ei chyflwyniad diddorol.

### **Llongyfarchiadau a Dymuniadau Da**

Llongyfarchwyd Aneurin a Sallie Jones, Hathren, ar ddathlu eu Priodas Aur ym mis Medi. Dymunwyd yn dda i Sioned Douglas wrth iddi ddechrau ar ei chwrs gradd yng Mhrifystol Fetropolitaid Caerdydd ac i Meinir Jones, Hendai – hithau'n dechrau ar Gwrs Meistr yng Ngholeg y Brifysgol Abertawe.

### **Cofion a gwellhad**

Yn fisol wrth fwrdd y Cymun, bydd y Parch Goronwy Evans yn cofio am yr holl aelodau a chysylltiadau sydd yn methu mynychu'r gwasanaethau oherwydd henaint a llesgedd yn eu cartrefi neu mewn cartrefi gofal.

Yn ystod y cyfnod yma hefyd mae llawer o aelodau wedi cael llawdriniaethau ac wedi dioddef

oherwydd damweiniau modur. Dymunwn yn dda i bawb beth bynnag yr amgylchiadau.

### **Sul y Cofio**

Yn ôl yr arfer gosodwyd plethdorch o flodau pabi ar fur y capel gan Mr Arthur Roderick i gofio am y rhai a gollodd eu bywydau ar faes y gad ac ymunodd y gynulleidfa mewn 2 funud o dawelwch.

### **Ffenestr**

Tynnodd Mr Evans ein sylw at y ffaith fod y ffenest a ddinistriwyd gan fandaliaid ddechrau'r flwyddyn wedi cael ei hailosod a'r ffrâm wedi'i gwella hefyd.

### **Organyddion**

Yn ystod y cyfnod yma diolchir am wasaneth yr organyddion canlynol: Mrs Megan Davies, Mrs Beti Evans, Mrs Meinir Evans, Mrs Margaret Jones, Mrs Meinir Jones, Mrs Trefina Jones, Mrs Tanya Morgans a Mrs Dawn Rees.

## **Caeronnen**

### **Gwasanaeth Undebol**

Ddydd Sul Medi 22, ymunodd aelodau Capel yr Erw a chynulleidfa Caeronnen mewn Cwrdd Undebol dan ofal ein gweinidog, Y Parch Cen Llwyd.

### **Gwasanaeth Diolchgarwch**

Brynhawn Sul, Hydref 27, daeth y Parch Alun Wyn Dafis i bregethu yn ein Cwrdd Diolchgarwch. Braf oedd gweld cynulleidfa gref yno gyda ffrindiau o enwadau'r ardal gyfagos. Diolchwyd i bawb am eu presenoldeb gan ein gweinidog, Y Parch Cen Llwyd.

### **Golau'r Gannwyll**

Cynhelir Gwasanaeth Golau'r Gannwyll nos Sul Rhagfyr 29 2013 am 6-30 y.h. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni i fwynhau talentau lleol.—a Dewi Pws!

## **Capel y Bryn**

### **Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Huw Evans, Alltgoch, ar ei lwyddiant yn y Sioeau Amaethyddol unwaith eto eleni. Hefyd, cafodd lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych. Da iawn ti!

### **Eisteddfod Genedlaethol**

Daeth llwyddiant hefyd i Carys Griffiths Jones yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych. Da iawn ti!

### **Gradd a swydd**

Llongyfarchiadau gwresog hefyd i Tracey Evenden sydd wedi graddio y Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar ddiwedd tymor yr Haf. Mae Tracey yn gweithio yn Ysgol Gynradd Pontsian. Pob hwyl i ti yn y dyfodol Tracey.

### **Cwrdd Diolchgarwch**

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch eleni nos Lun Hydref 7.

Beth Davies, Gorrig, fu'n gwasanaethu eleni a chafwyd anerchiad pwrpasol ganddi.

Diolchwyd iddi gan ein gweinidog y Parch. Wyn Thomas. Ms Sharon Long oedd yn gwasanaethu wrth yr organ.

### **Prynhawn Moes a Phryn**

Cynhaliwyd ein prynhawn Moes a Phryn arferol ddydd Sadwrn Hydref 12 dan ofal Urdd y Benywod.

Cafwyd prynhawn da o werthu a phrynu llawer o nwyddau.

Croesawyd a diolchwyd i bawb gan y Parchedig Wyn Thomas.

# Capel y Cwm



## Wele'n cychwyn dri ar ddeg + 1!

Cynhaliodd yr Ysgol Sul fore o 'Feicio Noddedig' un bore dydd Sul yn ystod mis Gorffennaf er mwyn codi arian at yr

Ysgol Sul. Codwyd swm arbennig o dda i goffrau'r ysgol Sul.. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r plant a'r daith.

### **Pen-blwydd Arbennig**

Yn ystod y misoedd diwethaf dathlodd Deian Ryder, Tyngrug-ganol ben-blwydd arbennig.

### **Arholiad Piano**

Llongyfarchiadau i Beca Jenkins, Hafan y Cwm, ar basio arholiad Step 2 gyda theilyngdod yn ddiweddar. Da iawn ti.

### **Ar y teledu**

Bu Sion, Wendy, Beca a Lisa Jenkins, Hafan y Cwm, ar raglen '100 o blant' ym mis Awst.

### **Genedigaethau**

Llongyfarchiadau i Bryn a Siân, Clyncoch, ar enedigaeth mab bach, Wil Ifan ar Awst 10.

Hefyd i frawd Bryn, Eilir, a Catrin Williams, Penrhiwllan, ar

enedigaeth efeilliaid ddechrau mis Hydref sef Lois Alaw ac Elis Wyn.

Hefyd i Bessie a Paul Williams, Clyncoch, ar ddod yn dad-cu a mam-gu i'r tri ac i Mrs Jean Evans, Llwyn-y-gog, ar ddod yn hen fam-gu unwaith eto.

A llongyfarchiadau i Dylan (Maesglas) ac Elen Davies a'r teulu i gyd ar enedigaeth merch, Elliw Grug.

### **Ar wellhad**

Hyfryd yw gweld Mrs Jean Evans, Llwyn-y-Gôg, yn ôl yng ngwasanaethau Capel y Cwm yn dilyn ei chyfnod o salwch.

### **Noson o Fingo**

Daeth nifer o gyfeillion yr achos o bob cwr atom i Festri Gapel y

Cwm nos Wener, Medi 20 i fwynhau gêm o Fingo dan ofal Mrs Caroline Davies o Bontsian.

Yn ystod y noson tynnwyd raffl fawr 2013 a dyma'r enillwyr :-

1. Dewi Jones, Llwynpur, Horeb
2. Richards, Elmo, Cwrtnewydd
3. Ina Glain, d/o Cathal, Cwrtnewydd 4. 01267 281566
5. Molly Blayne, Frondeg, Ponsian.

Diolchwyd gan y Parch Wyn Thomas.

### **Clod i ferch leol**

Ymfalchiwn yn y ffaith mai Einir Ryder, Tyngrug Ganol, a chyn aelod o GFfi Ponsian yw Cadeirydd newydd CFFI Ceredigion am 2013-2014. Etholwyd hi yng nghyfarfod blynyddol y mudiad ddiwedd mis

## Ar y trip!

Ddydd Sadwrn olaf mis Gorffennaf aeth trip yr Ysgol Sul i Heatherton yn Sir Benfro. Cafwyd diwrnod hwylus iawn yn mynd o un gweithgaredd i'r llall. Yna, ymlaen i Ddinbych y Pysgod lle cafodd pawb gyfle i nofio a chwarae gêm o rownderi ar y traeth. Cafwyd sglodion yn y dref cyn mynd nôl ar y bws. Erbyn hyn roedd pawb wedi blino'n llwyr – diwrnod i'w gofio!



Medi. Llongyfarchiadau gwresog i ti Einir a phob hwyl gyda'r gwaith pwysig yma yn ystod y flwyddyn sydd o dy flaen.

### Cydymdeimlo

Danfwn ein cydymdeimlad llwyr a dwysaf at Mrs Mair Thomas, Maes y Meillion, Dryslwyn, [ond fel Mair Tyngrug Uchaf i bawb yn yr ardal] yn ei phrofedigaeth ddiweddar o golli ei gwr, Elwyn.

### Cwrdd Diolchgarwch

Cafodd pawb yng Nghwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm eu

plesio'n fawr iawn. Cafwyd croeso gan y Parch Wyn Thomas ac ef yn ei dro a groesawodd ein pregethwr gwadd sef y Parch Richard Lewis o Bow Street ger Aberystwyth.

Bu'n diddanu'r plant i ddechrau gydag arbrawf syml - gyda help Owain ac Osian - ac yna cafwyd pregeth gofiadwy iawn ganddo.

Hyfryd oedd cael cwmni ei briod Mair gyda ni hefyd ac fe drodd pawb o'r Cwm y noson honno gan ddiolch am gael bod yn bresennol mewn oedfa a erys yn y cof am amser maith. Mrs

Eleri Jenkins, Bryngolau, oedd wrth yr organ.

### Ysgol Sul

Os oes rhywun am ymuno â ni yn yr Ysgol Sul, mae croeso mawr Ar hyn o bryd mae gennym 10 o blant yn dod yn rheolaidd.

### Gwelliannau i'r capel

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae gwaith wedi cael ei wneud i du allan y capel gan fod y platar wedi dirywio yn ofnadwy – felly mae'r Capel bellach ar ei newydd

## Capel y Groes

### Diolchgarwch

Nos Sul, 20 Hydref, daeth yr actor, Gwyn Elfyn – 'Denzil' Pobol y Cwm - i gynnal y Gwasanaeth Diolchgarwch. Mae bellach yn arwain capel yng Nghwm Gwendraeth. Fe roddodd bregeth ddiddorol a llawn ystyr.

### Cymun

Ddydd Sul 17 Tachwedd cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun yn y capel am

3.00 y prynhawn. Gwnaed y cyhoeddiadau gan Haydn Richards a darllenwyd yr emynau gan Ann Davies a Haydn Lewis. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Ceinwen Roach.

### Llongyfarchiadau

Yn y gwasanaeth brynhawn Sul, Rhagfyr 8, cafodd y gynulleidfa gyfle i longyfarch y gweinidog, y Parch Cen Llwyd, a'i ferch,

Gwenllian ar ddwbl nodedig—Cen yn ennill y Gadair a Gwenllian yn ennill Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Abergorlech.

### Nadolig

Cynhelir dathliad y Nadolig yn y festri brynhawn dydd Sul 15 Rhagfyr am 3.30 ac fe fydd y gwasanaeth blynyddol poblogaidd yn cael ei gynnal fore Nadolig am 9.00. Croeso cynnes i bawb.

# Capel y Fadfa



Torri'r gacen

## Sul Pawb Ynghyd

Ddydd Sul, 30 Mehefin, cynhaliwyd gwasanaeth Pawb Ynghyd arbennig i ddathlu dau

gan mlwyddiant yr Achos yng Nghapel y Fadfa. Yn dilyn y gwasanaeth, aethom i'r fynwent i ddadorchuddio mainc a osodwyd yno i nodi'r achlysur. Cafwyd te ysblennydd yn y festri i ddathlu, a chacen arbennig wedi ei rhoi gan Barbara Davies o'i gwaith ei hun, ac wedi ei haddurno gan Ann Jones. Torrwyd y gacen gan Mary Thomas, Llygad yr Haul.

## Aelod Newydd

Derbyniwyd Rhidian Thomas, Lluest Newydd yn aelod yn ystod ein Cwrdd Pawb Ynghyd. Croeso cynnes iddo.

## Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau i Hawys Davies, Aberystwyth ac Oliver Davies, Heddfa yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty.

**Llongyfarchiadau** i Iwan a Kath, Ucheldir, ar eu dyweddiad.

## Diolch

Derbyniwyd yn ddiolchgar iawn, rodd o £526.82, sef cyfran o'r elw o gyflwyniad dramatig adeg cyhoeddi llyfr 'Y Faciwi' gan Barbara Davies, sy'n aelod ffyddlon yng Nghapel y Fadfa.

## Gŵyl yr Ysgolion Sul

Ddydd Sul 8 Medi ymunon ni â chriw mawr o Undodiaid y Smotyn Du yn Sain Ffagan i gymryd rhan yn yr orymdaith i nodi 200 mlynedd ers diddymu Deddf y Drindod. Bu plant y capel yn cymryd rhan yn y gwasanaeth a oedd yng ngofal y Parchedig Wyn Thomas a chafwyd anerchiad pwrpasol ar eu cyfer.

# Capel y Graig

## Llongyfarchiadau ...

- I Cerian Colbourne am lwyddo yn ei harholiadau Safon Uwch a phob lwc iddi ym Mhrifysgol Fetropolitaidd Caerdydd.
- I Ben Phillips, am ei lwyddiant yn yr arholiadau

TGAU a phob lwc iddo yntau wrth ddychwyd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Bro Myrddin. Pob lwc iddo hefyd, wrth deithio i Malta yn rhan o Gwobr Dug Caeredin.

- I Kerry Ann Worsdell ar lwyddo yn yr arholiadau TGAU. Pob lwc yn y coleg.

- I Gerwyn a Teleri Thomas, Glennydd, Talgarreg ar enedigaeth eu mab, Rhun ar 27 Hydref.

## Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i bawb sydd wedi bod yn anhwylyd yn ddiweddar.

# Ciliau Aeron

## Gwellhad

Ers bron i chwech mis bellach mae Ann Rhys Dafis wedi bod yn glaf mewn dwy ysbyty wahanol ac ar adegau gwahanol bu'n ddifrifol wael.

Wrth i'r rhifyn yma o'r Ymofynnydd fynd i'r wasg newyddion da yw clywed bod yna obaith y bydd yn medru dod adref cyn bo hir a mawr yw'r edrych ymlaen at y diwrnod hynny. Dymunir gwellhad buan a llwyr iddi a phob dymuniad da i Roy hefyd.

Yn ddiweddar hefyd bu Llinos Griffiths yn derbyn llawdriniaeth mewn ysbyty a da yw ei gweld gartref ac ar wellhad.

## Gwasanaethau Golau Cannwyll

Cofiwch am y ddau wasanaeth  
arbennig tros wyliau'r Nadolig.

- Hen Gapel Llwyn, Noswyl Nadolig, 9.00pm
- Capel Caeronnen, Nos Sul, 29 Rhagfyr 6.30pm

# Cribyn

## Taith Gerdded

Fe wnaeth Taith Gerdded flynyddol capeli y Smotyn Du a gynhaliwyd ar ddydd Sul Gorffennaf 14 2013 orffen yng Nghribyn eleni. Casglwyd arian at Dim Ymateb Aciwt Ceredigion. Diolch i aelodau'r Capel wnaeth helpu gyda'r lluniaeth yn y *Long Room* ac i'r aelodau wnaeth ddarparu diod oer hanner ffordd ar y daith ar un o ddiwrnodau poethaf yr haf.



*Oddi wrth eu gwaith at eu gwobr!*

## Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd y Cwrdd Diolchgarwch nos Fawrth 15 Hydref 2013 gyda Parch Stephen Morgan yn bregethwr gwadd. Da oedd gweld nifer dda yn bresennol a oedd yn cynnwys cefnogaeth wrth aelodau yr Eglwys a Chapel Troedyrhiw. Diolch i Rhiannon Jones am ganu'r organ ac i Bet Jenkins a Ann Evans am addurno'r capel.

## Cwrs Diogelu Plant a Phobl Fregus

Cynrychiolodd Hâf Meredith y Capel ar y cwrs yma ddydd

Sadwrn Hydref 12 2013 ym Mwlchfyfadfa a derbyniodd Dystysgrif Lefel 1.

## Gwasanaeth y Cymun

Brynhawn Sul 27 Hydref cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun yn y capel. Thema'r gwasanaeth oedd Calan Gaeaf.

Darllenwyd yr emynau gan Morwen Thomas, Dilwen Jenkins a Dewi Pws Morris. Dosbarthwyd y cymun gan Ronald Thomas ac Olwen Davies.

Gwnaed y casgliad gan Ifan Meredith a Rhiannon Jones oedd yn cyfeilio ar yr organ.

Yn dilyn y gwasanaeth gwnaeth Haf Meredith a Delyth Evans lywio cyfarfod i drafod rhai materion perthnasol i'r capel.

Dymunwyd y gorau i denant newydd Aeron House a oedd ar fin symud i mewn i fyw yno o fewn yr wythnosau nesaf.

## Meddwl amdanoch

Ein cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd â chysylltiad â'r capel sydd wedi colli perthnasau a ffrindiau. Hefyd gwellhad llwyr a buan i'r holl aelodau a ffrindiau'r achos sydd heb fod yn dda iawn eu hiechyd.



## Ras Peli

Cynhaliwyd Ras Peli yn y Capel ar nos Wener Medi 20 2013 a chodwyd swm sylweddol tuag at y Capel. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniad boed yn werthu neu brynu peli yn ogystal â'r Stondin Gacennau a'r Raffl ar y noson.



## Sain Ffagan

Dyma lun o rai o aelodau Cribyn a ymunodd â'r daith i Sain Ffagan Ddydd Sul Medi 8 i gofio am ddiddymu Deddf y Drindod yn 1813.

Cafwyd diwrnod hwylus iawn gyda phobl o bob oedran yn mwynhau ymysg ei gilydd.



# Llwynrhydowen

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cyd-ymdeimlad dwys â theulu Raymond Griffiths, Bro Marles, yn eu profedigaeth.

## Bingo

Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y noson Bingo a gynhaliwyd gan Urdd y Benywod yn ddiweddar.

## Gwasanaeth Nadolig

Bydd y gwasanaeth golau cannwyl yn cael ei gynnal fel arfer Noswyl Nadolig yn Hen Gapel Llwyn am 9.00pm

## Pantydefaid

Mynd

â

hi

am

y

naw

deg!



Daeth llond festri o aelodau, ffrindiau a chefnogwyr Urdd y Benywod ynghyd i Bantydefaid nos Wener, Hydref 4, i ddathlu pen-blwydd y gangen yn 90 oed.

I ddechrau'r noson, clywsom rai pytiau o gofnodion y gangen ar hyd y blynyddoedd ac roedd pawb yn falch o'r cyfle i rannu llawer o atgofion am hanes Urdd y Benywod yn y blynyddoedd a fu.

Roedd Alan ac Ann Jones, Anneddwen, wedi rhoi cacen hyfryd i nodi'r achlysur, wedi ei gwneud a'i haddurno gan Ann gyda llun o'r capel arni. Torrwyd y gacen gan Mary Williams, Wilkes Head, sydd wedi bod yn drysorydd Urdd y Benywod ers dros chwarter canrif.

Fe fu panel o siaradwyr, gyda'r Parch Wyn

Thomas yn gadeirydd arnynt, yn ateb pob math o gwestiynau mewn Seiat Holi. Mae gan bob un o'r siaradwyr gysylltiad agos iawn â'r capel, sef Gethin Richards, Gwawr Thomas, Dewi Jones a Llŷr Jones a chafwyd noson hwylus iawn yn eu cwmni.

Braf oedd cael cwmni Mattie Evans, Cynthia Griffiths a Siriol Thomas, ein gwesteion arbennig, i ddathlu gyda ni.

I gloi'r noson, cafwyd gwledd unwaith yn rhagor mewn bwffe gyda digonedd o fwyd a digon o ddewis i blesio pawb.

Roedd yn noson i'w chofio ac mae Urdd y Benywod Pantydefaid yn ymfalchio eu bod yn dal i fynd o nerth i nerth gyda dros 30 o aelodau eleni, rhwng 17 ac 85 mlwydd oed. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cefnogaeth.

# Pantymdeifaid

## Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Mrs. Nansi Martin, Garnwen. Bu Nansi yn aelod ym Mhantymdeifaid ar hyd ei hoes ac roedd yn weddw i'r diweddar Weinidog, y Parch. Aubrey Martin.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â theulu Mrs. Mari Davies, Glycerdin, a gladdwyd ym mynwent Pantymdeifaid, a gyda Mr. Allan Jones, Hengoed, ar farwolaeth ei chwaer,

## Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs. Joyce Thomas, Suffolk, Mr. Allan Jones, Hengoed, a Mr. Ieuan Lloyd, Pwllau'r Bryn, y tri ohonynt wedi derbyn triniaeth mewn gwahanol ysbytai.

## Llongyfarchiadau

- I Dwynwen Evans, Cribor Fach, Eurion Jones-Williams, Cysgod-y-Pîn, a Lisa Jones, Blaencwmerwydd, am raddio o Brifysgol Aberystwyth.
- I Rowena a Lee, Neuadd Uchaf, ar enedigaeth eu merch, Hannah Eli May.

- I Ken a Marion Jones, Pantbach, ar ddod yn ddatcu a mamgu unwaith eto.
- I Alf Thomas, Fronwen, ar ddathlu pen-blwydd arbennig.
- Gareth Richards, Bryndolau, ar gael ei ddyrchafu i radd Sargeant yn y fyddin.
- I'r Parch. Wyn Thomas ar gael ei ethol yn Llywydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.
- William Hunter a Ruth Lewis ar eu dyweddiad.

## Dymuniadau Gorau

I Mary Williams, Min-y-Ffordd, ar ei hymddeoliad ac i Dwynwen Evans, Cribor Fach, yn ei swydd newydd.

## Aelodau newydd

Yn ein gwasanaeth Pawb Ynghyd ym mis Medi, derbyniwyd pump aelod newydd i'r gynulleidfa sef:

- Dorian a Dwynwen Evans, Cribor Fach.
- Lee Franklin, Neuadd

Uchaf.

- Annwen Thomas, Nantycwnstabl.
- Elen Thomas, Cwmdyllest.

Croeso cynnes iawn iddynt.

## Diolch

Diolch yn fawr i bawb, yn aelodau a ffrindiau, sy'n gweithio'n ddiwyd bob amser i sicrhau bod y fynwent yn dangos ôl gofal a chariad.

Diolch i'r rhai a fu'n cerdded ar daith gerdded C.U.D.C. ar ein rhan ac i bawb a'u noddodd yn hael iawn unwaith eto.

## Urdd y Benywod

Dymuna Aelodau Urdd y Benywod longyfarch Gwenyth Richards ar ei llwyddiant yn ennill cystadleuaeth yr Ymgom yn Eisteddfod C.Ff. I. Cymru. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Mair Davies, un o'n haelodau, ar gael ei hanrydeddu yn 'Halen y Ddaear' ar raglen Heno yn ddiweddar.

# Cofio un o blant y Smotyn – Margaret Evans



Llun o Margaret Evans gan Keith Lewis-Jones

Ar Hydref 10 eleni, bu farw Margaret Evans mewn ysbyty yng Nghaerdydd. Roedd yn 93 mlwydd oed.

Ganwyd hi yn Crumlin, Gogledd Iwerddon. Roedd ei thad, y Parch S.E. Bowen yn weinidog yno ac fe ddaeth y teulu nôl gyda'r Parch S.E. Bowen i ofalaeth Alltyblaca, Capel y Bryn a Chwmsychbant pan oedd Margaret yn ddeng mlwydd oed.

Priododd gyda Len o Lanybydder yn 1950 a chartrefu yng Nghaerdydd. Bu'n ysgrifennydd Capel West Grove am dros dri deg mlynedd ac yn ysgrifennydd gweithgar a ffyddlon i Urdd y Benywod yng ngwledydd Prydain am nifer fawr o flynyddoedd. Roedd yn gefnogwraig frwd o bob agwedd ar Undodiaeth a'i phresenoldeb i'w weld ar bron bob achlysur.

Fe welir ei heisiau'n fawr, yn enwedig ymhlith Undodiaid Caerdydd lle'r oedd yn ei heisteddfan yn rheolaidd. Roedd Margaret yn berson unigryw, brwdfrydig a ffyddlon ar hyd ei hoes.

Cydymdeimlir â'i neiaint, Dr. John Bowen yn Ninbych y Pysgod a Dr. Michael Bowen yn Seland Newydd a'r teuluoedd yn eu colled.

# Dathlu Rhyddid!

Lluniau Nia Davies o'r digwyddiad yn Amgueddfa Sain Ffagan i ddathlu 200 mlwyddiant dileu Deddf y Drindod a rhoi diwedd swyddogol ar erlid yr Undodiaid.



## Newyddion y De-ddwyrain

### Cefncoed

Cafwyd nifer o ymwelwyr i'r Hen Dŷ Cwrdd yng Nghefncoed ym mis Medi pan oedd y capel ar agor am y penwythnos. Roedd llawer yn awyddus i wybod mwy am eu hynafiaid gan gynnwys Sion Llewelyn, sylfaenydd yr Hen Dŷ Cwrdd yn 1747.

### Caerdydd

Cofiwch fod Gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnal yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr yn Heol Siarl (tu ôl i Marks & Spencer) ar ail Sul o bob mis am 4 o'r gloch.

Byddai'r gynulleidfa'n falch o groesawu aelodau o'r capeli yng Ngheredigion sydd bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Byddai'r Swyddog Datblygu, Dewi Owen, yn falch o gael cyfeiriad unigolion hefyd fel y gall gysylltu gyda nhw. Rhif ei ffôn symudol yw 07736251299.

### Cymdeithas y de-ddwyrain

Cafwyd nifer o weithgareddau yn ddiweddar. Roedd yn hyfryd croesawu nifer o Geredigion i'r gwasanaeth arbennig yng Nghapel Penrhwi i nodi dau gan

mlwyddiant rhoi'r hawl i Undodiaid addoli heb dorri'r gyfraith.

Cafwyd anerchiad gan y Parch Wyn Thomas gyda'r Parchedigion Cen Llwyd, Eric Jones a Lewis Rees yn cymryd rhan. Gwnaed y trefniadau gan Diana Bianchi a chafwyd gorymdaith a baneri o gwmpas tir yr amgueddfa.

Daeth bron i hanner cant ynghyd i Gellionnen i groesawu Llywydd y GA, y Parch Bill Darlison. Cafwyd croeso arbennig gan gynulleidfa Gellionnen.

# Oriel fach o rai o



## Yr Undodiaid eraill!

Rhywbeth hanner ffordd rhwng llyn ac afon oedd yno o tanon ni ... am tua 150 milltir yn nhalaith Washington yn yr Unol Daleithiau, mae afon fawr y Columbia wedi ei throï'n un argae hir.

Ro'n i'n sefyll mewn lle o'r enw Rhaeadrau Ithkoyape; ond doedd dim sôn am raeadr, dim ond y dŵr llonydd, llwyd.

Doedd dim sôn am samon chwaith, er mai'r ardal fach hon ar un adeg oedd un o'r llefydd gorau am eogiaid yng ngogledd America i gyd a miloedd o bobl frodorol yn arfer casglu yno yr un adeg bob blwyddyn i'w dal.

Yn union o 'mlaen i, roedd clamp o garreg fawr – tunnell neu ddwy o beth – ac ôl crafiadau clir ar ei thraws ym mhobman. Honno oedd y garreg hogi, lle byddai'r pysgotwyr yn rhoi min blaenllym ar eu gwaywffyn a'u picellau er mwyn trywanu'r pysgod anferth wrth iddyn nhw lamu i fyny'r afon.

Ro'n i yno i wneud rhaglen deledu gyda chwmmni Unigryw o Aberystwyth, oherwydd mai Cymro oedd y cynta' erioed i sgrifennu am yr hyn a welodd yno a'r cynta' erioed i ddilyn afon Columbia i gyd tros fwy na 1,200 o filltiroedd o Ganada i'r môr.

Fwy na 200 mlyned yn ôl, nodiadau'r Cymro David Thompson (ap Tomos oedd enw'i dad) sy'n benna' gyfrifol am ddarlunio bywyd hyd lan yr afon cyn i'r gwynion ddod. Roedd y garreg hogi fawr yn garreg sanctaidd a, dim ond ar ôl dadlau mawr, y

penderfynodd penaethiaid y llwythi y bydden nhw'n ei chodi hi i'w hachub hi rhag y dŵr. Ond fe gollson nhw'u tir a'u pysgod a phopeth oedd ynghlwm yn hynny. Tryweryn ar raddfa gatastroffig.

Mae disgrifiad David Thompson o bysgota'r eog yn un dramatig – roedd yna filoedd o'r pysgod yn llamu trwy'r rhaeadr bob dydd a chlystyrau o'r brodorion yma ac acw ar hyd y creigiau'n pysgota, pob llwyth a theulu'n cadw at eu lle.

Roedd yna un dyn yn rheoli'r cyfan ac yn gwneud yn siŵr fod digon o bysgod yn cael mynd i fyny'r afon ar gyfer llwythi eraill ac, efallai, er mwyn gwneud yn siŵr fod digon o bysgod ar gyfer eu dyfodol hwythau.

Byd felly oedd byd y brodorion a dyma pam fod hyd yn oed craig yn gallu bod yn sanctaidd. Rhannu eu lle gyda'r fam ddaear yr oedden nhw. Doedd neb yn berchen arni a, phan ddaeth y gwynion, doedd y brodorion ddim yn deall y syniad o feddiannu tir.

Dyna'r undodiaeth arall ... y syniad o undod popeth byw a'r hyn sydd yn ein cynnal.

Golygfa arall, rhyw 3,000 o filltiroedd i ffwrdd ar ynnysoedd Hawai'i sydd, oherwydd barusrwydd yr Americanaid, hefyd yn rhan o'r Unol Daleithiau.

Y tro yma, ro'n i'n sefyll ar lwyfan o greigiau du, du, ychydig gannoedd o lathenni o'r môr. Y tir du hwnnw oedd o gwmpas ymhobman ... daear

# Iuniau'r Gymdeithas



O'r chwith — Llywydd y Gymdeithas ar y pryd, Elaine Davies, yn siarad yn y cyfarfod i gofio cysylltiad yr Undodiaid gyda chapel Llangyndeyrn; y ddau weinidog, Cen a Wyn, yn croesawu Llywydd y GA, Parch Bill Darlison, i'r Smotyn Du; cyflwyno sicc y Daith Gerdded ac urddo'r Parch Wyn Thomas yn Llywydd newydd, gydag Elaine Davies a Nans Davies, yr Is-lywydd newydd.

## Dylan Iorwerth ar daith

newydd sbon ... lafa a oedd wedi ei chwydu o fynydd tân ychydig tros hanner canrif yn ôl.

Ar ei heistedd yno, roedd gwraig ifanc yn plethu darnau o redyn i greu torch ar gyfer ei phen a'i gwddw a breichledi ar gyfer ei thraed. Y rhedyn hwnnw fyddai'r planhigyn cynta' i dyfu ar y lafa Roedd yn symbol o fywyd newydd.

Roedd y wraig ifanc ar fin canu a dawnsio'r hula, dawns enwog ynyswyr Hawaii. Ond doedd hi'n ddim tebyg i ferched hula Elvis Presley a'r diwydiant twristaidd. Cân a dawns grefyddol oedd hon yn sôn am dduiwes tân yn croesi o ynys arall a'r llais pwerus a symudiadau'r breichiau gosgeiddig yn cyfuno i ddweud y stori.

Dilyn Cymro arall yr oeddwn i yn Hawai'i – David Samwell, neu Dafydd Ddu Feddyg, y meddyg ar un o longau'r Capten Cook. Ac fe sgrifennodd yntau ddisgrifiadau byw o rai o arferion pobl Hawai'i.

Ac mae'n bosib iawn fod Samwell yn Undodwr cynnar. Roedd yn un o ffrindiau Iolo Morganwg ac wedi bod yng nghapel enwog yr Undodiaid yn Essex Street.

I bobl Hawai'i hefyd, mae eu ffordd o fyw, eu crefydd a'r byd o'u cwmpas yn un a'r ddawnswraig yn enghraifft o uno hen greddau gyda Christnogaeth. Er ei bod hi'n addoli mewn eglwys,



doedd hi ddim yn gweld problem o gynnwys hen dduwies y tân yn hyn. Undodiaeth unwaith eto?

Yn ôl at y rhaeadrau ar afon fawr Columbia stori am y tro pan oedd rhaid atgyweirio wal yr argae,. Roedd rhaid gollwng y dŵr o'r llyn ac fe gafodd y bobl ar lan y rhaeadr brofiad rhyfeddol.

Wrth i'r dŵr ostwng, roedden nhw'n clywed sŵn fel tyrfe a hwnnw'n cynyddu o hyd. Yn raddol, fe ddaeth ynsoedd i'r golwg ac wedyn yr afon a'r rhaeadrau yno o hyd.

Roedd Columbia wedi parhau i darannu tros y creigiau o dan y llyn ar hyd yr holl flynyddoedd ... a fuodd yna well symbol o dduw?

# Hoff garol y Nadolig?

Y cerddor Eirian Jones yn dewis rhai o'i hoff garolau hi. A ydych chi'n cytuno?

“Daeth gŵyl y baban â gwên 'nôl i'r byd,  
Deuwch, cenwch, clodforwch;  
Dewch at eich gilydd a bloeddiwch ynghyd”  
Do, fe ddaeth tymor y mins peis, y cardiau Nadolig  
a'r carolau ar ein traws eto.

I mi, mae cerddoriaeth yn rhan annatod o'r wyl  
ac wedi bod erioed ers  
pan o'n i'n groten fach.  
Tyfais i fyny gydag 'I  
Orwedd mewn Preseb',  
'O deuwch ffyddloniaid'  
a'u tebyg ac i mi mae yna  
ryw fytholwyrddni yn  
perthyn iddynt.

Gwnaeth sawl bardd  
waith da iawn wrth  
gyfieithu nifer o'r rhain  
i'r Gymraeg gan  
ddefnyddio iaith safonol  
ond heb golli dim ar y  
neges wreiddiol Mae 'O  
dawel ddinas Bethlehem' yn enghraifft berffaith  
gyda'r cyfieithiad Cymraeg gan Ben Davies yn  
llifo'n esmwyth.

Un ffefryn, nad yw'n cael ei pherfformio'n  
ddigon aml yn fy marn i yw'r dôn Cranham gan y  
cyfansoddwr Seisnig Gustav Holst. Christina  
Rossetti biau'r geiriau ac anodd peidio sylwi ar y  
briodas berffaith rhwng gair, alaw a harmoni:

*“What can I give Him*

*Poor as I am?*

*If I were a Shepherd*

*I would bring a lamb.”*

Mae'r cyfieithiad Cymraeg gan Simon B. Jones  
(un o Fois y Cilie) yr un mor drawiadol.

*“Beth a roddaf iddo,*

*Llwm a thlawd fy myd?*

*Pe bawn fugail rhoddwn*

*Orau'r praidd i gyd.”*

Mae symrlwydd y cymal agoriadol yn farddonol  
a cherddorol yn cydio bob tro ac yn ei rhoi i mi yn  
go agos i'r brig o blith y carolau mwyaf poblogaidd.

Yn swydd Pennaeth Cerdd yn Ysgol Gyfun  
Penweddig, Aberystwyth, un o brif dasgau Tymor  
yr Hydref yn flynyddol oedd dewis rhaglen o  
gerddoriaeth ddeniadol ac apelgar ar gyfer  
gwasanaeth carolau'r ysgol, a fyddai'n digwydd  
bob blwyddyn ar ddiwrnod olaf y tymor.

Nid tasg hawdd mohoni o gofio bod y corau'n  
niferus a bod angen cerddoriaeth hefyd ar y  
gerddorfa, y Band Pres a'r amrywiol *ensembles*  
(lleisiol ac offerynnol). Un ystyriaeth bwysig oedd  
ceisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr hen a'r  
newydd: peidiwn ag anghofio'r traddodiadol ond



cadwed y drysau'n agored  
hefyd i gynnwys y cyfoes.  
Erbyn hyn mae cyfrolau o  
ddeunydd newydd ar  
gyfer y Nadolig yn  
ymddangos yn rheolaidd  
gyda chyfansoddwyr fel  
Robat Arwyn ac Eric  
Jones yn cyfansoddi  
carolau deniadol, sy'n  
fodern o safbwynt arddull  
ond sy'n dal i fedru  
pwysleisio'r hen neges yn  
y geiriau.

Yn y gyfrol 'Stori'r

Preseb' gan Robat Arwyn mae gosodiad o'r geiriau  
'Cysga'n dawel blentyn, gwyn dy fyd' - alaw syml  
ond hudolus gyda'r adran ganol ddramatig yn  
dweud hanes Herod a'i filwyr - carol fodern hyfryd.

Rwy'n hoff iawn o osodiad Eric Jones o'r  
geiriau 'Heno mor dlos' hefyd. Alaw swynol dros  
ben, eto —harmoni a chyfeiliant piano cwbl  
bwrpasol ynghyd â chytgan sy'n esgyn ac yn rhoi  
clo bendigedig i'r cyfan.

Mae'r plantos (yn ddiethriad) wrth eu bodd  
gyda 'Nadolig Llawn i chi gyd' o waith Caryl Parry  
Jones. Yn flynyddol fe gaf y cwestiwn ganddynt,  
“A gewn ni ganu Nadolig Llawn 'to leni?” Mae'r  
gerddoriaeth a'r geiriau yn fachog (yn enwedig y  
gytgan) gyda sôn am yr anrhegion a'r twrci yn y  
pennill cyntaf ond gan symud at wir ystyr y Nadolig  
yn yr ail bennill. Gofynnir y cwestiwn pwysig yn y  
gytgan - “A oes 'na le i'r Iesu? – Neu ydi'r llety'n  
llawn o hyd...?” . Gyda chlo hynod gofiadwy, dim  
rhyfedd bod y plantos (fawr a mân) yn ei mwynhau.

A sôn am fwynhau, cafodd cantorion y Gymanfa  
Ganu gryn flas hefyd yn perfformio 'Mae'r sêr yn  
canu' o waith Robat Arwyn. Bu'n rhaid cael  
'encôr' (yn enwedig o'r gytgan) sawl tro. Dyna i chi  
enghraifft o gytgan fachog os bu un erioed.

Joiwch y mins peis a chofiwch ganu'r holl  
garolau — yr hen a'r newydd — gydag arddeliad!